**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, ADFYWIO A GWASANAETHAU RHEOLEIDDIOL**

# FERSIWN 2 O'R PROTOCOL AR GYFER HYFFORDDI AELODAU

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma ydi ceisio cefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig i'r Protocol ar gyfer Hyfforddi Aelodau mewn Materion Cynllunio.

## 2. CEFNDIR

2.1. Fe gymeradwywyd y protocol yn y lle cyntaf yn y Cyngor Llawn yn 2008. Y rheswm am gyflwyno protocol felly oedd sicrhau fod Aelodau'n cael eu diweddaru ar y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir o fewn y system Gynllunio a hefyd i hysbysu Aelodau o unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth.

2.2. Wrth i gyfnod etholiad newydd nesáu, teimlir y byddai'n amserol diwygio'r protocol a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu yn y ffordd y'i bwriadwyd yn wreiddiol.

2.3. Bydd Swyddogion Cynllunio'n mynychu sesiynau Datblygu Proffesiynol Parhaus yn rheolaidd a sesiynau hyfforddi ar ddeddfwriaeth newydd a phrosesau cynllunio. Mae'r digwyddiadau a drefnir ar gyfer Aelodau'n gyfle delfrydol i staff drosglwyddo'r wybodaeth i Aelodau a hefyd i Aelodau a staff gyfnewid barn ar brosesau newydd.

2.4. Fe fu'r protocol yn llwyddiannus gan fwyaf felly dim ond mân ddiwygiadau a gymeradwyir. Mae edrychiad y protocol wedi newid. Mae hynny, yn syml, er mwyn i'r protocol hwn fod yn gyson â phob protocol arall o fewn Cynllunio.

2.5. Mae'r newid cyntaf ym mharagraff 7 y protocol. Mae'r maen prawf ychwanegol o fewn y paragraff yma wedi ei fwriadu i ganiatáu mwy o gyfle i Aelodau gyflawni eu gofynion hyfforddiant/datblygu. Bydd Aelodau'n aml yn ymgymryd â llawer o waith ac ymchwil wrth gynrychioli'r Cyngor mewn apeliadau Cynllunio. Bydd Aelodau hefyd yn treulio cryn amser yn cynorthwyo etholwyr, neu ddatblygwyr gyda materion Cynllunio. Mae Swyddogion yn cydnabod y gall yr ymchwil a wneir wrth gynorthwyo mewn apeliadau neu gyfarfodydd gyda datblygwyr/ymgeiswyr fod yn sylweddol. Fodd bynnag, bydd angen i Aelodau amlinellu lefel eu hymglymiad yn ysgrifenedig i'r Rheolwr Datblygu a Chydymffurfio fel y gellir cofnodi hyn yn unol â hynny.

2.6. Mae'r ail newid yn ymwneud ag Aelodau fydd yn dod i ddiwedd y flwyddyn Gyngor a heb gyfarfod â'r gofyniad o ddwy sesiwn. Yn dilyn adborth gan Aelodau, fe wnaethpwyd y newid hwn i sicrhau cydnabyddiaeth o'r ffaith fod rhai Aelodau'n fynychwyr rheolaidd y Pwyllgorau Cynllunio ac felly'n cael llawer o wybodaeth a

phrofiad drwy bresenoldeb felly.

2.7. Mae maen prawf ychwanegol wedi ei gynnwys o fewn paragraff 10 i sicrhau fod mynychwyr rheolaidd y Pwyllgor Cynllunio’n cael 1 credyd am fynychu isafswm o 8 Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn Gyngor (Mawrth/Ebrill). Fodd bynnag, ni fwriedir i Aelodau’r Pwyllgor cynllunio fynychu dim ond 1 sesiwn hyffordd/ddatblygu ym mhob blwyddyn Gyngor, mae ond yn cydnabod y gall fod yn anodd i rai Aelodau fynychu dwy sesiwn ond fe ddylen nhw gael rhywfaint o gredyd am fynychu’r Pwyllgor Cynllunio’n rheolaidd.

2.8. Fe ychwanegwyd nodyn ar waelod y protocol sydd wedi ei fwriadu i egluro a ydi Aelodau i’w hatal rhag pleidleisio os na fyddan nhw’n cyflawni’r gofyniad o 2 sesiwn hyfforddi/ddatblygu ym mhob blwyddyn Gyngor.

2.9. Os oes gan awdurdod lleol brotocol mabwysiedig ar gyfer hyfforddi/datblygu aelodau, mae’n debygol fod Aelodau sydd ddim yn cyfarfod â’r meini prawf gofynnol mewn perygl o gael eu beirniadu gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol neu’r Arolygiaeth os ceir cwyn neu apêl. Felly fe’i nodir, er na chaiff Aelodau eu hatal rhag pleidleisio, fod yna rwymedigaeth foesol ar yr Aelod i gyfarfod â’r meini prawf hyfforddi/datblygu gofynnol.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1. Bod aelodau’n derbyn y newidiadau.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Protocol Hyfforddi Aelodau Gwreiddiol

Atodiad 2 – Protocol Hyfforddi Aelodau Diwygiedig